

Dŵr yfed 2015

Crynodeb o adroddiad y Prif Arolygydd
ar ddŵr yfed yng Nghymru

Gorffennaf 2016

Adroddiad gan y Prif Arolygydd Dŵr Yfed





Dŵr yfed 2015

Crynodeb o adroddiad y Prif
Arolygydd ar ddŵr yfed yng Nghymru



Cyhoeddwyd gan
Drinking Water Inspectorate
Area 7e
9 Millbank
c/o Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR

Ffôn: 0300 068 6400

Gwefan: <http://www.dwi.gov.uk>

© Hawlfraint y Goron 2016

ISBN: 978-1-911087-09-0

Y Goron sy'n berchen ar yr hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol a'r dyluniad.


Gellir atgynhychu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logo) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng a bwrw ei fod yn cael ei atgynhychu yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl a ffynhonnell y cyhoeddiad.

Dŵr yfed 2015

Crynodeb o adroddiad y Prif Arolygydd ar ddŵr yfed yng Nghymru

Yn gyffredinol, yn 2015, 99.96% oedd y ffigur ar gyfer cydymffurfiaeth y cyflenwad dŵr cyhoeddus â Chyfarwyddeb Dŵr Yfed yr Undeb Ewropeaidd (UE) yng Nghymru a Lloegr. Caiff y ffigur cydymffurfiaeth o ran ansawdd dŵr yfed ei gyfrifo ar sail profion ar gyfer 39 o baramedrau microbiolegol a chemegol gwahanol ac yn achos 36 o'r paramedrau hyn, cyrhaeddwyd y safon ar gyfer cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2000 yn achos pob prawf a gynhaliwyd yng Nghymru. Lle na lwyddwyd i gyrraedd y safonau, dangosir y rhesymau yn Ffigur 1.


Ffigur 1: Nifer yr achosion lle na chyrraeddwyd y safonau - Cymru 2015



Fodd bynnag, nid yw lefelau cydymffurfiaeth yn fesur cyflawn o'r graddau y mae cwmnïau dŵr yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, nac yn ffordd o ragfynegi perfformiad yn gywir, yn hytrach, mesur o waith monitro diweddbwynt ydynt. Rhoddir gormod o bwyslais o hyd ar gydymffurfiaeth parthau sy'n arwain at ddull gweithredu adweithiol lle ceir gormod o ddigwyddiadau ansawdd dŵr arwyddocaol o hyd. Rhoddir gormod o bwyslais hefyd ar driniaethau, yn hytrach nag asesu risg a rheoli'r peryglon hynny sy'n codi yn y tarddiad ac ar bob cam drwodd i'r tap.

Mae diogelu tarddiad dŵr yn opsiwn cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon ac yn ffordd ragweithiol o leihau risg, lleihau triniaethau ac, felly, leihau gwastraffu adnoddau prin. Cydnabyddir hyn yn y Gyfarwyddeb Fframwaith

Dŵr sy'n amlinellu'r nod o atal dirywiad yn ansawdd tarddiad dŵr er mwyn lleihau lefel y triniaethau puro sydd eu hangen i gynhyrchu dŵr yfed, ac yn y Gyfarwydddeb Defnydd Cynaliadwy lle dylid rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu cyflenwadau dŵr yfed rhag plaladdwyr. Mae Lloegr yn dal i ganfod metaldehyd (65), sef plaladdwr a ddefnyddir i ladd malwod a all gael ei olchi i mewn i ffynonellau dŵr gan law. Mae'n anodd cael gwared arno drwy ddulliau rheoli dalgylch a thrin dŵr. Yng Nghymru, mae trefniadau monitro metaldehyd ar waith mewn 13 o fannau tynnu dŵr heb ei drin, a gwelwyd lefelau isel o fetaldehyd mewn chwech o'r manau hyn yn 2015. Fodd bynnag, ni fu unrhyw fethiannau i gyrraedd y safonau yn achos dŵr wedi'i drin yng Nghymru.



Metaldehyd

Yn 2015, gwnaeth cwmnïau yn yr ardaloedd hynny lle canfuwyd metaldehyd ymdrechion sylweddol i nodweddu dalgylchoedd, cyflwyno treialon seiliedig ar wobrwyo i ffermwyr, hyrwyddo cynhyrchion amgen a chynnal ymgyrchoedd i leihau presenoldeb metaldehyd. Mae canlyniadau cychwynnol y gwaith hwn wedi bod yn galonogol, ond mae'r treialon yn cael eu cynnal mewn dalgylchoedd bach a chyfyngedig a bydd angen gwneud rhagor o waith i brofi y gellir eu trosglwyddo i ddalgylchoedd mawr. Er mwyn gweld mwy o leihad yn 2016, rhaid i'r holl randdeiliaid gydweithio er mwyn dod o hyd i ateb cynaliadwy a chosteffeithiol.

Gan droi at gam nesaf y broses cyflenwi dŵr, sef trin dŵr; yn 2015, cafwyd tri digwyddiad mewn gweithfeydd trin mawr a phwysig. Y gweithfeydd dan sylw oedd gweithfeydd Frankley, sy'n rhan o Severn Trent Water, lle methodd y systemau diheintio am chwe awr gan effeithio ar 1.5 miliwn o ddefnyddwyr o bosibl, a gweithfeydd Franklaw, sy'n rhan o United Utilities, lle cynghorwyd hyd at 700,000 o ddefnyddwyr i ferwi dŵr ar ôl i *Cryptosporidium* gael ei ganfod. Amlygodd y methiannau yn y ddau waith trin dŵr hyn faterion i bob cwmni eu hystyried yn ogystal â thynnu sylw at yr angen am waith cynllunio strategol tymor hwy er mwyn osgoi methiannau i gyflenwi dŵr iachusol i ddefnyddwyr bob amser lle nad oes cyfle amlwg i ymadfer. Roedd trydydd digwyddiad yng ngweithfeydd Egham, sy'n rhan o Affinity Water, wedi tynnu sylw at ddiffyg cydnerthedd



yng nghynllun y gweithfeydd wrth i'r unig brif bibell blastig â gwydr cyfnerthedig 1,000mm rhwng y camau trin dorri, gan beryglu cyflenwadau i 280,000 o ddefnyddwyr. Dylai cynlluniau ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng gweithfeydd a systemau, yn ogystal â thra-dyblygiad prosesau, gweithredu o fewn terfynau dyluniad, technoleg briodol a staff cymwys gan eu dwyn ynghyd drwy drefniadau asesu a lliniaru risg. Eleni, cyflwynodd cwmnïau eu hasesiadau risg i'r Arolygiaeth ac mae'n amlwg y bydd angen blaenoriaethu gwaith cynllunio asedau hirdymor ar gyfer ansawdd dŵr er mwyn cynnal cyflenwad cydnerth.

Gan droi at storio dŵr; yn ystod 2015, canolbwyntiodd rhaglen archwilio'r Arolygiaeth ar strwythurau a elwir yn danciau torri.

Mae tanciau torri yn bresennol mewn rhwydweithiau am resymau gweithredol, yn aml er mwyn gallu newid gwasgedd o un ardal i'r llall neu fel ffordd o ddiogelu rhag ôl-lifiad ac, fel arfer, maent yn gymharol fach. Ni chânt eu hystyried yn asedau rheoleiddiol yn wahanol i gronfeydd dŵr gwasanaeth a gaiff eu hystyried yn gyflenwadau dŵr wrth gefn sy'n ateb galw amrywiadwy ac sy'n amrywio o ran maint, gan ddal miliynau o litrau o ddŵr weithiau. Er nad yw'r Rheoliadau yn cynnwys gofynion monitro ar gyfer tanciau torri, byddem yn disgwyl i gwmnïau eu trin yn yr un ffordd â chronfeydd dŵr gwasanaeth gan eu bod yn peri risg debyg i'r cyflenwad dŵr.




Daeth yr Arolygiaeth i'r casgliad nad oedd hyn yn digwydd. Mewn 39 (71%) o achosion, nid oedd unrhyw waith samplu o gwbl yn digwydd ac mewn 13 (24%) o achosion, nid oedd y cwmnïau hyd yn oed wedi cynnwys y tanc yn eu hasesiadau risg. Mae hyn yn tynnu sylw at y risg sy'n codi pan fydd cwmnïau yn canolbwyntio ar gydymffurfio fel targed perfformiad yn hytrach na rheoli risg.

Ar bedwerydd cam y gadwyn gyflenwi, trown ein sylw at ddsbarthu dŵr. Mae gan y diwydiant dŵr lawer o ryng-gysylltiadau o fewn a rhwng cwmnïau dŵr sy'n eu galluogi i gyfnewid dŵr er mwyn sicrhau bod digon ar gael. Gelwir y cyflenwadau hyn yn swmp-drosglwyddiadau neu'n swmp-gyflenwadau. Pan fydd cwmni yn cyflenwi dŵr i gwmni arall, mae'r ddau ohonynt yn gyfrifol o dan y trefniant hwn. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r dŵr fod yn iachusol pan gaiff ei allforio ac ni ddylai beri i'r system ddirywio yn nes ymlaen o ganlyniad i effaith y newid yn y tarddiad. Yn yr un modd, rhaid i'r mewnofiwr sicrhau ei fod wedi cymryd camau i ddiogelu dŵr addas ar gyfer ei system. Gwneir hyn drwy rannu gwybodaeth ac asesu risgiau ar y cyd cyn bod unrhyw ddŵr yn cael ei drosglwyddo. Yn

2015, nododd yr Arolygiaeth ragor o dystiolaeth a oedd yn dangos gwendidau yn y protocolau a'r trefniadau ar gyfer swmp-gyflenwadau. Roedd yr Arolygiaeth yn siomedig i nodi nad oedd 25% o brotocolau swmp-drosglwyddo cwmnïau dŵr yn cynnwys prosesau trosglwyddo data na rhyngweithio rheolaidd rhwng y cwmni a oedd yn darparu dŵr a'r cwmni a oedd yn ei dderbyn. Dangosodd archwiliad yr Arolygiaeth nad oedd y rhan fwyaf o'r trefniadau wedi cael eu hadolygu na'u diweddarau ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2012. Nid oedd cwmnïau yn rhannu asesiadau risg, data ar ansawdd dŵr na chymau eraill i liniaru risgiau o ran ansawdd dŵr ar gyfer cyflenwadau rhwng cwmnïau neu o fewn cwmnïau. Mewn diwydiant lle mae a lle bydd cwmnïau yn cludo cyfeintiau sylweddol o ddŵr, rhaid i ansawdd dŵr barhau i fod yn greiddiol i'r amcan hwn yn hytrach nag amcanion busnes. Gallai cludo dŵr nad yw'n cydymffurfio gael ei ystyried yn drosedd, er enghraifft, pan fo metaldehyd yn bresennol neu pan fo tarddiad newydd yn peri i system arall beidio â chydymffurfio, fel y gwelwyd yn Flint, Michigan yn yr UD.

Cam olaf y gadwyn cyflenwi dŵr yw'r dŵr sy'n dod allan o'r tap. Roedd ychydig llai na 40% o fethiannau yn 2015 wedi digwydd o ganlyniad i systemau domestig defnyddwyr (12 allan o 32).

Ffigur 2: Methiannau yn nhapiau defnyddwyr



Un o'r meysydd anoddaf i gwmnïau dŵr ei reoli yw methiannau mewn safleoedd domestig gydag achosion yn amrywio o hen bibellau plwm a chynhyrchion fel tapiau a gosodiadau a all halogi'r cyflenwad, er enghraifft, sodr sy'n cynnwys plwm (sydd wedi cael ei wahardd rhag cael ei

ddefnyddio mewn cyflenwadau dŵr ers y 1970au ond sy'n dal i gael ei ganfod) neu dapiau â haenau cromiwm neu nicel. Bydd presenoldeb y deunyddiau hyn yn parhau i beri risg i iechyd. Rhaid i gwmnïau arfer eu pwerau fel rheoleiddwyr gosodiadau dŵr, yn enwedig wrth i'r gystadleuaeth gynyddu.

Bydd yr Arolygiaeth yn parhau i ddatblygu ei strategaeth i ganolbwyntio ar asesu risg. Cafodd y gofyniad i gwmnïau gwblhau asesiad risg ar gyfer pob gwaith trin a system gyflenwi ei gyflwyno fel rhan o'r diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau yn 2007. Ym mis Hydref 2015, cwblhaodd yr Arolygiaeth ei phrosiect ar gyfer cronfa ddata sy'n gosod fframwaith cytûn ar gyfer adroddiadau asesu risg cryno sy'n dangos lefelau cydymffurfiaeth cwmnïau â'r Rheoliadau. Mae'r gronfa ddata yn casglu'r holl wybodaeth am risg sy'n gysylltiedig â dalgylchoedd, gweithfeydd trin dŵr, cronfeydd dŵr gwasanaeth a pharthau, ac yn galluogi'r Arolygiaeth i graffu ar y risgiau hynny a chamau lliniaru cysylltiedig. Mae asesiadau'r Arolygiaeth o'r wybodaeth am risg ac unrhyw gamau gorfodi dilynol i'w gweld hefyd. Mae'r newid pwysig hwn yn ategu egwyddorion asesu risg a gwell rheoleiddio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu canlyniadau'r asesiadau a bydd yr Arolygiaeth yn ystyried hyn fel rhan o'i hymateb seiliedig ar risg yn y dyfodol.

Mae adroddiad y Prif Arolygydd newydd ar gyfer 2016 yn cydnabod y newidiadau ym maes rheoleiddio dŵr lle mae gwaith rheoleiddio rhagweithiol yn canolbwyntio ar asesu a rheoli risg yn hytrach nag anelu'n gyfan gwbl at gydymffurfio â pharamedrau ar y diweddbwynt. Caiff data a gyflwynir i'r Arolygiaeth, ynghyd â chanlyniadau ymchwiliadau a chamau gorfodi, eu defnyddio i reoli risgiau rheoleiddiol gyda mynegeion newydd i ddangos ble y ceir risgiau o fethiannau rheoleiddiol o fewn y diwydiant. Y nod yw sicrhau gwaith rheoleiddio cymesur ac effeithiol.

Cyflenwadau preifat

Yn 2015, roedd cofnodion awdurdodau lleol yn cynnwys manylion cyfanswm o 13,893 o gyflenwadau preifat yng Nghymru, y mae 84% ohonynt yn gwasanaethu un aelwyd. Yng Nghymru, mae dros 77,000 o bobl yn byw neu'n gweithio ar safle sy'n dibynnu ar gyflenwad preifat. Roedd ansawdd cyflenwadau dŵr cyhoeddus yng Nghymru yn 2015 yn uchel iawn, gan mai dim ond 0.04% o brofion na lwyddodd i gyrraedd safonau cenedlaethol a safonau'r UE, ond mae ansawdd cyflenwadau dŵr preifat yn parhau i beri pryder, wrth i 6.1% o brofion fethu â chyrraedd y safonau yn 2015. Serch hynny, mae'r ffigur hwn yn welliant o gymharu â'r 9.6% o brofion a fethodd yn 2010, pan gyflwynwyd adroddiadau ar gyflenwadau preifat am y tro cyntaf.


Mae canlyniadau'r profion yn ystod 2015 yn dangos bod cyflenwadau preifat yng Nghymru, er eu bod yn well ar y cyfan na blynyddoedd blaenorol, yn parhau i fod yn anniogel o safbwynt ansawdd microbiolegol, gyda 15.7% o samplau yn cynnwys *E.coli* a 13.8% yn cynnwys Enterococci. Mae methiannau o ran y ddwy safon hyn yn golygu bod y cyflenwad dŵr wedi'i halogi â sylwedd ysgarthol a bod risg y bydd pathogenau niweidiol yn bresennol hefyd.

Yn 2015, mae'r cofnodion yn dangos bod 61 o gyflenwadau yng Nghymru a oedd yn peri perygl posibl i iechyd dynol lle roedd awdurdodau lleol wedi'i gwneud yn ofynnol i'r perchenogion wneud gwelliannau a chymryd camau i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn ostyngiad bach mewn gweithgarwch yng Nghymru o gymharu â 2014, pan gymerwyd camau i ddiogelu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â 165 o gyflenwadau. Yng Nghymru, mae pedwar o bob pump (80%) o'r cyflenwadau preifat hyn sy'n methu yn gyflenwadau mawr neu'n gyflenwadau i safleoedd masnachol neu gyhoeddus.

Ledled Cymru, roedd asesiadau risg wedi cael eu cynnal mewn perthynas â 1,870 o gyflenwadau preifat erbyn diwedd 2015, ond mae 13% o asesiadau yn weddill o hyd. Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn dangos bod 13 o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cydymffurfio'n llawn â'r ddyletswydd i gynnal asesiad risg mewn perthynas â'r holl gyflenwadau perthnasol yn eu hardal. Mae un cyngor (Cyngor Sir Ddinbych) wedi ysgrifennu at yr Arolygiaeth gan ddweud ei fod yn gwrthod cyflenwi ei ddata statudol am nad oes digon o adnoddau ar gael i gwblhau'r dasg ac felly mae data'r Arolygiaeth yn ddiffygiol.


Mae cyflenwadau preifat yn cyflenwi 1% o ddefnyddwyr ar gyfartaledd, ond mewn rhai ardaloedd gall cyflenwadau preifat gyflenwi hyd at 10% o'r boblogaeth, yn enwedig mewn ardaloedd ynysig lle nad oes cyflenwad cyhoeddus. Caiff yr ardaloedd hyn, fel Canolbarth Cymru a De-orllewin a Gogledd-orllewin Lloegr, eu cysylltu'n aml â thwristiaeth a rhain yn aml yw'r cyflenwadau sy'n darparu dŵr ar gyfer llety gwely a brecwast, caffis ac atyniadau.

Ffigur 3: Canran poblogaeth awdurdodau lleol sy'n cael eu gwasanaethu gan gyflenwad dŵr preifat



Mae'r adroddiad hwn yn meithrin dealltwriaeth ynghylch lleoliad daearyddol risgiau fel arsenig er mwyn helpu awdurdodau lleol pan fyddant yn cynnal eu hasesiad risg.

Ffigur 4: Sampl arsenig uchaf o setiau data ynghylch dŵr heb ei drin o gyflenwadau cyhoeddus a chyflenwadau dŵr preifat



Mae'r adroddiad hwn hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o gyflenwadau sy'n methu, yn enwedig y cyflenwadau llai hynny sy'n darparu dŵr i eiddo arall lle mae'n bosibl nad yw'r rhai sy'n ei dderbyn yn ymwybodol o ansawdd y dŵr nac yn gallu rheoli neu newid y cyflenwad. Rhwng 2011 a 2015, canfuwyd bod y cyflenwadau bach hyn yn gyfrifol am bron 17% o'r profion

a oedd yn cynnwys *E.coli* a bron 16% o'r profion a oedd yn cynnwys enterococci, sydd ill dau yn arwydd o halogiad ysgarthol uniongyrchol ac yn peri risg sylweddol i ddefnyddwyr.

Er mwyn dysgu gwersi, mae'r adroddiad *Dŵr yfed 2015 - Cyflenwadau dŵr preifat* yn disgrifio nifer o astudiaethau achos ag amgylchiadau amrywiol a oedd wedi peri risg i ddefnyddwyr neu wedi achosi salwch. Yn ystod 2015, cafwyd dau ddigwyddiad arwyddocaol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â salwch a effeithiodd ar dri grŵp teuluol gwahanol a oedd yn aros ar eu gwyliau mewn dau fwthyn a oedd yn cael eu gwasanaethu gan gyflenwad preifat yn ystod haf 2015. Ymhlith y 52 unigolyn, cafwyd 22 achos symptomatig o ddolur rhydd a chwydu a bu'n rhaid i bum unigolyn fynd i'r ysbyty o ganlyniad i haint *E.coli* 0157. Roedd tarddiad y cyflenwad preifat, sef nant, wedi'i leoli mewn ardal o dir pori coediog ar lethr uwchlaw'r safle ac roedd uned diheintio uwchfioled wedi'i gosod. Canfuwyd nifer o ddiffygion yn y cyflenwad, gan gynnwys newidiadau yn y dalgylch, offer rhy fach a threfniadau rheoli annigonol. Yn yr ail ddigwyddiad arwyddocaol, cafodd cyflenwad dŵr preifat wedi'i halogi â thricloroethen (TCE) ei ddefnyddio gan ffatri fwyd fawr a arweiniodd at Hysbysiad Cadw Bwyd gan yr awdurdodau. Mae'r digwyddiad hwn a'r erlyniad cysylltiedig yn tynnu sylw at yr effaith ariannol (£1 filiwn) a gafodd hyn ar un safle bwyd ar ôl iddo orfod rhoi terfyn ar gynhyrchu, adalw cynhyrchion gan gwsmeriaid a chomisiynu cyflenwad dŵr newydd a hynny oll am fod y busnes hwnnw wedi dewis dibynnu ar gyflenwad dŵr preifat nad oedd yn cyrraedd y safonau ansawdd. Mae'r achos hefyd yn dangos sut mae'r niwed y gall un digwyddiad ei wneud i enw da busnes bwyd yn llawer mwy na'r gost o gydymffurfio â'r rheoliadau.

I gloi, mae goruchwyliaeth gyson a gwaith cynnal a chadw gofalus gan unigolion cymwys yn angenrheidiol ar gyfer dŵr yfed.

Adroddiad perfformiad busnes

Yn dilyn 2015 ac fel rhan o newidiadau parhaus, mae'r Adroddiad Perfformiad Busnes yn datblygu'r tryloywder, y gonestrwydd a'r cyfrifoldeb ariannol a gweithredol i bawb sy'n ymddiried yn yr Arolygiaeth i reoleiddio dŵr yfed. Nod yr adroddiad yw egluro dyletswyddau statudol ac anstatudol yr Arolygiaeth, amcanion strategol, a'n gwaith a'n cyflawniadau yn ystod y fllwyddyn ariannol 2015/16 ynghyd â'r newidiadau sydd ar ddod i ddeddfwriaeth a rheoliadau dŵr yfed.

Mae'r Arolygiaeth, tîm bach o 41 aelod o staff, yn rheoleiddio diwydiant sy'n darparu 14 biliwn litr o ddŵr iachusol i ddefnyddwyr yng Nghymru a Lloegr bob dydd, ac yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar reoleiddio 50,000 o gyflenwadau preifat, yn ogystal â swyddogaethau eraill a esbonnir yn yr

adroddiad hwn. Mae'r her o sicrhau bod dŵr yfed yn parhau'n ddiogel, bod y cyhoedd yn parhau i ymddiried ynddo a sicrhau yr ymddiriedir yn yr Arolygiaeth a'i bod yn gweithredu er budd defnyddwyr yn gofyn am arloesedd ym maes ymdrin â data, arbenigedd yn y maes a chydweithredu â'r rhai rydym yn eu rheoleiddio, eu cynghori ac yn rhyngweithio â hwy ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r arloesedd yn yr Arolygiaeth wedi arwain at asesu dros bedair miliwn o ddarnau o ddata dadansoddiadol, dros 600 o ymchwiliadau ac archwiliadau o ddigwyddiadau, dros 200 o asesiadau risg a hysbysiadau cyfreithiol, a bron 1,200 o ymholiadau gan awdurdodau lleol, defnyddwyr a sefydliadau. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Arolygiaeth yn cymhwyso trefniadau gwell rheoleiddio drwy hyrwyddo hunanreoleiddio ar ffurf asesiadau risg i'r rhai rydym yn eu rheoleiddio a nodi methiant rheoleidiol drwy ddadansoddi'r data a gawn ar sail risg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cyd-reoleiddwyr a hyrwyddo deialog adeiladol â hwy; Ofwat, awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a chynrychiolydd y diwydiant dŵr, Water UK yn ogystal â Defra a Llywodraeth Cymru.

Mae darparu dŵr yfed iachusol yn ganolog i'r gwaith o ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn egluro rôl yr Arolygiaeth Dŵr Yfed at ddibenion dysgu, gwneud penderfyniadau a chydweithio er mwyn cynnal hyder yn ein cyflenwad.



Marcus Rink
Prif Arolygydd Dŵr Yfed



Drinking Water Inspectorate | Nobel House, 17 Smith Square | London | SW1P 3JR | Tel: 0300 068 6400

www.dwi.gov.uk